

## 'YDI'R GWIRIONEDD YN TRAWSFFURFIO EICH BYWYD?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Adeiladwch ffydd yng ngrym y gwirionedd i drawsffurfio. Rhwch enghreifftiau o'r newidiadau anodd a wnaeth rhai pobl er mwyn bodloni Jehofah. Pwysleiswch fod angen i bawb ohonom barhau i drawsnewid ein bywydau gyda'r nod o adlewyrchu delw Duw yn fwy cywir ac felly ei ogoneddu

### **FE BERTHYN GRYM TRAWSFFURFIO I'R GWIRIONEDD** (6 mun.)

Fe berthyn i wirionedd y Beibl rym i gyflawni drawsffurfio rhyfeddol ym mywydau dynion

Yn Rhufeiniaid 12:2, daw "trawsffurfio" o air Groeg *me-ta-mor-pho'o*, sy'n awgrymu newid llwyr, megis metamorffosis lindysyn yn löyn byw (*w90 4/1 16*)

Prawf enghreifftiau o bobl yn y ganrif gyntaf C.C. y gall y gwirionedd wneud hyn (*g78 5/8 27*)

Digwyddodd trawsffurfio ymhlith Cristnogion yng Nghorinth a Colosae (1Cor 6:9-11; Col 3:5-10)

Digwyddodd trawsffurfio tebyg ym mywyd yr apostol Paul hefyd (Cymharer 1 Timotheus 1:13-16 â 1 Corinthiaid 11:1)

'Oes gan y gwirionedd rym i drawsffurfio heddiw?

Rhagfynegodd y proffwyd Eiseia drawsffurfio personoliaethau dynol i'n dydd ni (Eiseia 11:6-9; *sl 183-94* [noder ¶18, 20]; *w83 10/1 4-6; it-2 257*)

Gwnaeth llawer o bobl drawsffurfiadau o'r fath, gan wneud eu bywydau yn hyfrytach ac yn fwy pwrpasol (*w90 4/1 17; w89 10/1 21; w88 1/1 5-6; w88 5/1 7, 18; w85 2/1 25; w83 10/1 6-7*)

### **CYDNABYDDWCH ANGEN TRAWSFFURFIO** (10 mun.)

Mae angen ein drawsffurfio arnom oll (Rhuf 3:23; 13:11-14)

Daw'r cymhelliad o'r awydd i foddhau'r Creawdwr ac adlewyrchu ei bersonoliaeth (Col 3:10)

Mae'r Beibl yn nodi nodweddion personoliaeth y mae'n rhaid eu diosg (Diar 6:16-19)

Mae'r Beibl yn disgrifio nodweddion dymunol y dylem eu meithrin (Gal 5:22, 23; *w90 4/1 17-18*)

Mae'r Beibl yn dangos *sut* i wneud y drawsffurfio (*w93 3/1 15-18*)

Rhaid yn gyntaf 'adnewyddu ein meddwl' drwy fwydo'n meddwl ar Air Duw (Rhuf 12:2; Eff 4:23)

Drwy gyfrwng gweddi, medrwn erfyn help Duw drwy'r ysbryd sanctaidd (Lc 11:13; 1In 5:14, 15)

Gallwn ofyn am help henuriaid yn y gynulleidfa Gristnogol (Iago 5:14-20; *w89 9/15 17*)

Canfyddwn, nid rhestrau hir o reolau, ond cyngor ac egwyddorion sy'n ein helpu ni i wybod pa newidiadau i'w gwneud

Mae agweddau pendant gan rai newydd i weithio arnynt, ond mae hefyd feysydd sydd angen sylw arnynt gan y rheiny sydd wedi bod yn y gwirionedd am gyfnod hir

### **TROI ODDI WRTH WEITHGAREDDAU SY'N CAMDRIN Y CORFF A'R MEDDWL** (15 mun.)

Mae cymhwyso egwyddorion y Beibl yn helpu unigolion i droi oddi wrth arferion sy'n camdrin y corff a'r meddwl, a thrwy hynny wella'u bywydau

Camddefnyddio alcohol

Er nad yw'r Beibl yn gwahardd yfed diodydd alcoholaidd yn gymhedrol, y mae'n condemnio meddwdod (Gal 5:21; 1Tim 3:8; 5:23; *yp 262-71*)

Mae gweld golygwedd y Beibl ar gamddefnyddio alcohol wedi helpu llawer i droi oddi wrth gwrs o'r fath (*w86 10/1 24; g82 7/22 15*)

Daw'r trawsffurfio â budd a lles yn ffurf gwell iechyd, bywyd teuluol hapusach (*g87 5/8 6-7; g87 11/8 10-11; g80 3/8 7-12*)

Ysmygu a chamddefnyddio cyffuriau

Mae gan ysmygu effaith aflesol ar y corff a'r meddwl, ac nid yw, felly, yn gydnaws ag egwyddorion Ysgrythuro (Rhuf 12:1; *g89 11/8 26-7; rs 109-11*)

Mae egwyddorion Ysgrythuro yn dangos fod yn rhaid i Gristnogion osgoi pob camddefnyddio cyffuriau (Lc 10:27; Gal 5:20, lle mae'r gair Groeg *phar-ma-ki'a*, a gyfieithir "dewiniaeth," yn golygu "cyffuriaeth" yn llythrennol; 2Cor 7:1; *tp 158; rs 107; w73 339, 342-3*)

Mae awydd i fyw mewn harmoni ag egwyddorion o'r fath wedi helpu llawer i droi oddi wrth bod yn gaeth i gyffuriau; mae'r newid hwn wedi dod â budd a lles (*g89 7/8 14-15; w88 10/1 29; g87 11/22 21-3*)

Anfoesoldeb rhywiol

Mae'r Beibl yn benodol gondemnio puteindra ac aflendid (1Cor 6:9, 18; Gal 5:19-21)

Gwirionedd y Beibl wedi helpu llawer i lanhau eu bywydau ac felly osgoi llawer problem boenus (*yp 181-91; w94 5/15 20*)

Byddai trawsffurfio'n golygu osgoi nid yn unig buteindra ond hefyd unrhyw aflendid gyda'r rhyw arall (*yp 193-7*)

**TROI ODDI WRTH FFORDD O FEDDWL AC AGWEDDAU BYDOL** (10 mun.)

Mae anghenrhaid arall ar gyfer trawsffurfio yn ymwneud â goresgyn dylanwad cyfrwys ffordd o feddwl ac agwedddau bydol

Mae newidiadau y gall gwirionedd y Beibl ein helpu i'w cyflawni yn cynnwys:

Goresgyn rhagfarnau a balchder yn ymwneud â hil neu genedligrwydd (Act 10:34, 35; *w89* 7/1 11-12; *g88* 1/22 27; *g88* 6/22 8-10)

Ymwrthod â phwysau i fod yn aflednais neu'n anwedus o ran gwisg a thrwsiad (1Tim 2:9, 10; *w88* 8/15 17; *w77* 149-50; *g77* 9/22 27-8; *yp* 90-6)

Gosod pethau materol a hunan-les yn eu cyd-destun cywir o safbwynt perthynas â Duw a chyd-ddyn (Mth 6:33; 1Tim 6:6-8; *w90* 2/15 6; *w87* 10/1 5-6)

Mae gwneud newidiadau o'r fath yn gofyn ymdrech barhaol oherwydd cawn ein gorfodi i oddef dylanwadau'r byd yn gyson (2Cor 13:5)

Ydi'r gwirionedd wedi trawsffurfio'ch bywyd chi yn y meysydd hyn?

Mae angen i bawb ohonom barhau i weithio ar hyn

**BUDD A LLES CAEL EIN TRAWSFFURFIO** (4 mun.)

Daw trawsffurfio parhaus yn ein bywydau â "gogoniant" cynyddol i Jehofah wrth inni adlewyrchu ei nodweddion yn well (2Cor 3:18; *w90* 4/1 20; *w76* 327)

Cawn fwynhau budd a lles corfforol ac ysbrydol gwirioneddol, sy'n profi, er bod angen ymdrech, fod y canlyniadau'n werth yr ymdrech

(Adolygwch rai o'r buddion a grybwyllir uchod)

Rhagflas bychan yn unig o'r rhai sydd i ddod yw'r buddion presennol i bawb sy'n parhau i ddefnyddio gwirionedd y Beibl i drawsffurfio'u bywydau mewn harmoni ag ewyllys Duw

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)